# PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

## 28 Ebrill 2021

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Dr M Havard, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am - 11.40am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021.

**4. Eithrio'r cyhoedd**
**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**5. Adroddiad ar Ddiweddaru'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)**

**a) Sefyllfa Ariannol y Gronfa**
Roedd yr adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd blwyddyn 2020/21 oedd yn dangos bod £55,318 yn weddill yn y gyllideb, ac yn mynd ymlaen i amlinellu sefyllfa'r prosiectau oedd wedi'u cymeradwyo yn ystod y flwyddyn a'r prosiectau hynny yr oedd ymrwymiadau wedi'i wneud ar eu cyfer yn y blynyddoedd blaenorol. Nodwyd bod cyfanswm o £100,000 ar gael ar gyfer dosbarthu grantiau yn y flwyddyn ariannol 2021/22, a dywedodd y swyddog bod yr Awdurdod unwaith eto wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol; y gobaith oedd y byddai penderfyniad ar hyn yn dod i law fis Mai.

Gofynnodd un Aelod a fyddai'r arian oedd heb ei wario yn cael ei gario ymlaen i'r Gronfa ar gyfer 2021/22. Atebodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r arian yn mynd yn ôl i gronfa gyffredinol yr Awdurdod, ond bod gan yr

Awdurdod gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £28,000 oedd yn cynnwys tanwariant o flynyddoedd blaenorol, ac y gellid defnyddio'r gronfa hon pe bai'r Pwyllgor yn dymuno neilltuo mwy na'r cyllid oedd wedi'i gyllidebu. Dywedodd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi derbyn swm mawr o arian ychwanegol canol blwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 a bod yr Awdurdod wedi gwneud defnydd da ohono, a llongyfarchwyd y swyddogion ar y nifer o geisiadau a gyflwynwyd a'r gwariant y llwyddwyd i'w gyflawni. Serch hynny, y gobaith oedd y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i wario'r cyfan o'r arian a ddyrannwyd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Dywedodd y Swyddog Cyllido a Grantiau bod cais wedi dod i law oddi wrth Mencap Sir Benfro Cyf (SDF/112020/3) oedd wedi derbyn grant i gynnal nifer o brosiectau seilwaith bach, gan gynnwys un i ddargyfeirio dŵr glaw i bwll dŵr, ac un arall i brynu peiriant rhwygo i falu gwastraff gardd. Roedd yr Awdurdod wedi cael ar ddeall bod y tanc casglu dŵr glaw bellach yn gollwng dŵr ac felly nad oedd yr elfen honno o'r prosiect yn hyfyw mwyach, ac ar ôl ail-ystyried y mater, nad oedd Mencap Cyf yn credu y byddai'r peiriant rhwygo yn cynhyrchu tomwellt o ansawdd derbyniol. Felly, roeddent wedi gofyn am gael defnyddio'r arian (oedd yn golygu rhyw hanner yr arian a roddwyd) i brynu peiriant palu a reolir â llaw i greu gwrtaith gwyrdd yn lle'r peiriant rhwygo. Gofynnwyd am farn yr Aelodau.

Roedd yr Aelodau'n dymuno sicrhau bod y peiriant palu a brynir yn dal i fodloni amodau'r Gronfa, ac yn hapus i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Swyddog Cyllido a Grantiau yn amodol ar fodloni meini prawf y gronfa ac ar dderbyn dyfynbris derbyniol.

**PENDERFYNWYD**:
a) nodi'r adroddiad; a
b) bod cytuno ar y newid i'r Prosiect Mencap Sir Benfro Cyf SDF/112020/3 yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Cyllido a Grantiau yn amodol ar dderbyn dyfynbris derbyniol gyda manyleb ar gyfer y peiriant palu a sicrwydd y byddai'r prosiect yn parhau i fodloni meini prawf y gronfa.

**b) Ceisiadau i'w Hystyried**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod fis Mehefin 2020 wedi cytuno i newid ffocws y Gronfa i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned oedd yn cyfrannau at leihau'r allyriadau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd pedwar categori i geisiadau:

A. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol

B. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth
C. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff
D. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu 5 cais a wnaed i'r gronfa, oedd yn geisiadau am gyfanswm o £51,272.

Roedd y ceisiadau canlynol gerbron y Pwyllgor i'w hystyried ac roedd yr adroddiad yn nodi crynodeb a gwiriad cymhwysedd ar gyfer pob un.

| **Math o Brosiect** | **Cyfeirnod** | **Sefydliad** | **Y cyllid a geisir** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| A | SDF /042021/1 | Tŷ Clwb Cymunedol Solfach | £10,217 |
| B | SDF /042021/2 | Sefydliad Paul Sartori Cyfyngedig | £ 1,152 |
| C | SDF /042021/3 | COAST – Rhandir a Drefnir gan y Gymuned ar gyfer Tenantiaid Solfach | £8,000 |
| C | SDF /042021/4 | Clwb Rygbi Unedig Dinbych-y-pysgod Cyf | £ 12,563 |
| D | SDF /042021/5 | Ecodewi | £ 19,340 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **£51,272** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio a **PHENDERFYNWYD** rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant yn ogystal â'r amodau ychwanegol a nodir isod:

**1) SDF/042021/1 (Tŷ Clwb Solfach)**
Amod ychwanegol:
i) Darparu gwybodaeth fel rhan o'r prosiect yn y tŷ clwb am yr ynni a gynhyrchir a'r lleihau carbon fel y gall aelodau'r gymuned weld effaith y camau hyn.

**2) SDF/042021/2 (Paul Sartori)**
Byddai'r Pwyllgor yn annog Paul Sartori i hyrwyddo'r prosiect, megis drwy ychwanegu hysbysebu ar y fan, a gofyn iddynt roi tystiolaeth am y modd y defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd i leihau allyriadau carbon.

3) **SDF/ 042021/3 (COAST)**
Amod ychwanegol:
   i) Cytundeb prydles ysgrifenedig rhwng y tirfeddiannwr (CSP) a'r Ymgeisydd (grŵp COAST a gyfansoddwyd) sy'n cytuno bod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd.

4) **SDF/042021/4 (Clwb Rygbi Dinbych-y-pysgod)**
Byddai'r Pwyllgor yn annog hyrwyddo negeseuon o gwmpas y Clwb ynghylch lleihau gwastraff yn ogystal ag ailgylchu. Er enghraifft buddsoddi mewn poteli dŵr y gellir eu hailddefnyddio ac annog eu defnyddio, a pheidio â defnyddio plastigau untro.

5) **SDF/042021/5** (**Ecodewi)**
Amodau ychwanegol:
   i) Darparu amserlen gyda cherrig milltir y prosiect dros y 18 mis yn ogystal ag adroddiadau cynnydd ar bob carreg filltir.
   ii) Gweithio'n agos gyda Grŵp Amgylcheddol Ardal Trefdraeth sy'n cyflawni prosiect tebyg a ariennir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i rannu arferion da.

c) **Dyddiadau Cyfarfodydd y Pwyllgor SDF yn y Dyfodol**
Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau ag awgrym y swyddog i drefnu ymweliadau safle yn lle cyfarfod mis Gorffennaf, pe bai'r rheoliadau yn caniatáu, i roi cyfle i'r Aelodau weld prosiectau sydd wedi'u cwblhau.

**NODWYD.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 heb eu diwygio. |